GARDD SALM 23

# Adnoddau i Ysgolion

## Sut i fynd ati i greu gardd sydd wedi'i hysbrydoli gan salm 23

**Mae gardd mewn ysgol yn cynnig lle i'r staff a'r disgyblion ymdawelu a meddwl, gyda natur o'u cwmpas – hyd yn oed yng nghanol dinas – ac i ddod i gysylltiad â'r byd naturiol;. Cafodd gardd Cymdeithas y Beibl yn sioe Flodau Chelsea ei hysbrydoli gan Salm 23.**

**Pedwar cam sylfaenol yn unig sydd i greu gardd sydd wedi'i hysbrydi gan Salm 23 yn eich ysgol.**

## 1. Coeden

**Mae'n bosib i bob gardd gynnwys coeden waeth pa mor fach ydyw. Mae coeden yn cynnig ei hun fel ffocws i'r llygad, yn darparu cysgod, ac yn denu bywyd gwylt. Bydd yn rhoi'r argraff fod eich llecyn yn fwy nag ydyw, ac yn darparu cysgod a chreu cysgodion diddorol yn yr ardd.**

Mae perllannau gwledydd Prydain, fel y dolydd, wedi dioddef dros y blynyddoedd, gyda 90% wedi'u dymchwel ers yr Ail Ryfel Byd. Ond 5 coeden ffrwythau yn unig sydd eu hangen i greu perllan, felly gallwn i gyd helpu i newid y sefyllfa.

Mae Gardd Salm 23 Sioe Flodau Frenhinol Chelsea yn dangos yr hyn sy'n bosib pan mae un goeden drawiadol yn cael ei chynnwys mewn gardd sydd yn ddim mwy na 10m (30 troedfedd) sgwâr.

Os ydych yn ffodus, efallai fod coed sydd wedi hen sefydlu eu hunain ar dir eich ysgol, neu ar dir cyfagos. Os nad, ystyriwch faint o le sydd ar gael gennych. Oes digon o le i ddechrau tyfu coeden fawr y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn gallu ei mwynhau? Ydych chi am dyfu rhywbeth llai megis coeden acer sy'n hapus mewn lle cysgodol ac yn tyfu dail lliwgar? Neu goniffer bach sydd â dail gydol y flwyddyn? Neu a ydych chi am blannu grŵp o lwyni llai megis y cwyrosyn y mae ei rhisgl yn lliwgar iawn yn ystod y gaeaf?

Yr amser gorau i blannu coeden yw yn ystod y cyfnod cwsg, yn yr hydref a'r gaeaf. Cloddiwch dwll sy'n fwy na digon o faint i gynnwys y gwreiddyn cyfan. Ychwanegwch ychydig o wrtaith (tail sydd wedi pydru) neu gompost er mwyn rhoi cychwyn da iddi.

Os yw'n bosibl, taenwch ychydig o ffyngau mycorhisol ar y gwreiddiau. Mae'r rhain i bob pwrpas yn ymestyn gwreiddiau'r goeden, gan ei galluogi i dynnu mwy o faeth o'r pridd, ac amsugno dŵr yn well. Cofiwch ddyfrio'r goeden yn rheolaidd nes ei bod wedi'i sefydlu, yn enwedig os yw'r plannu'n digwydd rhwng Chwefror a Medi.

Ar gyfer yr ysgolion hynny sydd â thir arwyneb caled yn unig, mae llawer o goed llai yn tyfu'n dda mewn potyn neu dwba, gan gynnwys coed acer, llawryf a hyd yn oed coed olewydd (mewn ardaloedd mwy cysgodol)

Mae cynnig gwych ar gael os ydych am gael coed i'w plannu mewn gardd sydd wedi'i hysbrydoli gan Salm 23. Rydyn ni'n cydweithio â'n cyfeillion yn Coed Cadw (Woodland Trust). Mae Coed Cadw am sicrhau fod pawb o fewn y Deyrnas Unedig yn cael cyfle i blannu coeden, felly mae'n rhoi miloedd o goed am ddim i ysgolion a chymunedau sydd am eu plannu ar dir agored cyhoeddus.

Mae'r pecynnau yn amrywio o ran cynnwys a maint. Beth am greu cartref i fywyd gwyllt, neu sirioli golygfa gyda lliw ar hyd y flwyddyn? Beth am gasglu ffrwythau a chnau neu dyfu tanwydd ar gyfer eich llosgydd coed? Os yw eich llecyn yn fawr neu'n fach, mae gan Coed Cadw becyn sy'n addas ar eich cyfer.

Ewch i woodlandtrust.org.uk/freetrees os am wneud cais. Gall ysgolion dderbyn cyngor am blannu a gofalu am goed a llawer mwy gan Coed Cadw – cliciwch ar **treetoolsforschools.org.uk**.

## 2. Lle i eistedd

**Mae darparu sedd yn eich gardd yn annog eich disgyblion i oedi a mwynhau'r ardd. Yn ddelfrydol dylid darparu digon o le i'r dosbarth cyfan eistedd gyda'i gilydd a defnyddio'r ardd.**

Yn hytrach na phrynu meinciau newydd byddai modd chwilio am seddau ail-law yn eich canolfan ail-gylchu leol, neu chwiliwch ar safleoedd ail-gylchu megis Freecycle, Gumtree a Facebay.

## 3. Dŵr

**Mae dŵr yn ychwanegu at yr ymdeimlad o ymlacio a llonyddwch mewn unrhyw ardd, boed yn fawr neu'n fach. Pleser llwyr yw eistedd a gwrando ar sŵn y dŵr, a gwylio'r golau yn chwarae ar wyneb y dŵr.**

Ac wrth gwrs, mae dŵr yn denu bywyd gwyllt. Bydd anifeiliaid ac adar yn dod yno i gael diod. O greu'r cynefin priodol, efallai y daw llyffantod, madfallod ac amrywiaeth fawr o bryfed gan gynnwys chwilod mursen a gweision y neidr.

Fodd bynnag, mae dŵr yn amlwg yn gallu bod yn beryglus, ac mae angen gosod ffens o amgylch unrhyw nodwedd megis pwll neu bistyll fel na all y disgyblion fynd atynt heb arolygaeth oedolyn, hyd yn oed os nad yw'r nodweddion yn ddwfn a bod yr ochrau sy'n raddol ddisgyn. Os ydych yn bwriadu creu nodwedd o'r fath, dylech geisio arweiniad pellach am y math o fesurau diogelwch sydd eu hangen.

Mae dulliau eraill o gynnwys dŵr mewn gardd er enghraifft nodwedd ddŵr sy'n cael ei phweru gan yr haul. Maent i'w cael mewn amrywiol ddyluniadau a gwahanol ddefnyddiau ac maent yn defnyddio pwmp sy'n cael ei bweru gan yr haul i ail-gylchu'r dŵr. Neu beth am greu bwll bach i adar ymdrochi er mwyn denu bywyd gwyllt i'r ardd, neu gasgen ddŵr ar gyfer storio dŵr glaw er mwyn dysgu'r plant am bwysigrwydd peidio â gwastraffu adnoddau.

## 4. Dolydd

**Mae 97% o ddolydd Prydain wedi eu colli ers 1945 ac mae hyn wedi effeithio ar y bywyd gwyllt y mae dolydd yn gynefin iddynt, ystod eang o bryfaid a pili-palod yn arbennig. Felly wrth greu gardd sydd wedi'i hysbrydoli gan Salm 23, beth am gynnwys dôl fechan er mwyn unioni'r fantol?**

Gall y ddôl (waeth beth yw ei maint na'i siâp) ychwanegu lliw, bywyd a gweadedd i'ch gardd. Bydd modd creu stribedi blodau gwyllt, medr o led, o bobtu llwybrau. Os yn creu dôl sy'n fwy o faint, torrwch y

glaswellt er mwyn creu llwybrau gan adael i'r plant gael mynediad i'r canol.

Dylai creu dôl o flodau gwyllt gynyddu nifer ac amrywiaeth y bywyd gwyllt y bydd y plant yn eu gweld. Nid yn unig gwenyn, pili-palod, a gweision neidr, ond hefyd ceiliogod rhedyn, pryfaid, pryfaid cop a hyd yn oed ambell i chwistlen fydd yn gwerthfawrogi'r cynefin glaswelltog hir. Bydd modd i'r plant ymgyfarwyddo â'r bywyd gwyllt sydd o'u cwmpas, ac efallai concro eu hofn o bryfetach.

Mae'r glaswellt sy'n tyfu ar lawntiau arferol gwledydd Prydain yn eithaf gwydn ac mae blodau gwyllt yn ei chael hi'n anodd i fwrw gwreiddiau.  Felly dyma ychydig o awgrymiadau i chi.

Yr awgrym cyntaf:  codwch y glaswellt presennol a gosodwch dyweirch blodau gwyllt yn ei le.  Maent eisoes wedi'u hadu â blodau gwyllt parhaol megis blodau penlas neu babi.  Mae'n bwysig gadael i'r blodau hadu, er mwyn i'r hadau wreiddio a blodeuo y flwyddyn ganlynol.

Mae'r ail awgrym yn syml –  gadael i ran o'r glaswellt presennol dyfu'n hir  a gweld beth ddaw yn sgil hynny. Fel arfer mae yna hadau blodau gwyllt mewn glaswellt, ac o'i adael heb ei dorri, byddant yn cyrraedd eu twf llawn ac yn blodeuo.

Gyda'r naill neu'r llall o'r awgrymiadau hyn, gallwch hefyd  gynnwys llecynnau o flodau gwyllt parhaol megis llygad yr ych, blodau'r brain, briallu a'r clafrllys y gellir eu prynu fel planhigion bach i'w gwthio i'r ddaear, neu wair addurnol.

Planhigyn ardderchog i'w blannu yw'r gribell felen.  Dyma blanhigyn parasitig sy'n byw ar y glaswellt. Mae'n lleihau'r glasdir ac yn rhoi lle i'r blodau gwyllt fwrw eu had a sefydlu eu hunain.

Os mai arwyneb caled sydd i'r tir o gwmpas eich ysgol, gellir hefyd tyfu blodau gwyllt mewn bocsys neu welyau tyfu uchel, ond bydd angen iddynt fod o leiaf dwy i dair troedfedd ar draws mewn maint.  Mae'n hawdd cynnal a chadw dolydd.  Torrwch y glaswellt wedi i bopeth flodeuo, ac wedi i'r hadau ymddangos a disgyn. (Cofiwch fod angen torri o amgylch unrhyw flodau parhaol)  Casglwch unrhyw laswellt sydd wedi'i dorri fel nad yw'n cael cyfle i ychwanegu maeth i'r pridd. Mae blodau gwyllt yn tyfu'n well mewn pridd gwael.

Os ydych am blannu unrhyw blanhigion, neu osod tyweirch blodau gwyllt, cofiwch eu dyfrio yn ystod eu cyfnod ymsefydlu, yn enwedig os ydych yn plannu yn ystod yr haf.  Ond hyd yn oed bryd hynny, mae'n werth cadw golwg ar y tywydd a dyfrio'r planhigion os nad fydd hi'n glawio am rai dyddiau

Mae modd i chi osod deial haul ffon syml yng nghanol y ddôl, neu osod bwrdd du yno a gofyn i'r disgyblion nodi'n fisol pa fywyd gwyllt a welwyd ganddynt.  Bydd hyn yn ennyn eu diddordeb ac yn eu hannog i gymryd rhan. Bydd hefyd yn gymorth iddynt weld y newid ddaeth yn sgil y ddôl.

## Syniadau eraill

**Edrychwch i weld pa fath o goed a phlanhigion sy'n ffynnu yn eich ardal leol.  Gallai gwaith ymchwil i'r math o blanhigion sy'n addas ar gyfer eich lleoliad chi fod yn brosiect sy'n datblygu sgiliau gwyddonol ac ymchwilio eich disgyblion.**

Nid oes angen bod yn rhy uchelgeisiol. Mae cychwyn gyda chynllun bach, ac yna ehangu'r ardd wedi sefydlu'r cam cyntaf yn ffordd ymarferol iawn o redeg prosiect o'r fath, yn enwedig os ydych yn creu gardd o'r newydd.

Mae pedair elfen gardd Salm 23 yn hawdd i'w cynnal a'u cadw wedi iddynt gael eu sefydlu yn y lle cyntaf ond mae'n bwysig eich bod yn ystyried sut mae cynnal yr ardd i'r dyfodol a phwy fydd yn gwneud y

gwaith – a hynny cyn i chi gychwyn ar y prosiect.

Ystyriwch pa sefydliadau lleol allai fod yn barod i ddarparu help ar gyfer eich gardd. Efallai y byddai planhigfeydd, cwmnïau tirlunio, canolfannau garddio neu safleoedd ail-gylchu lleol yn barod i gynnig disgownt neu nawdd – gallai'r plant ysgrifennu atynt i roi gwybodaeth am yr ardd fel rhan o'u gwaith ysgrifenedig.

Gellid rhoi hwb cychwynnol i'r ardd wrth gynnal amnest planhigion a gofyn i rieni gyfrannu unrhyw blanhigion sydd dros ben ganddynt neu hadau (neu unrhyw beth defnyddiol).

Cyn cychwyn arni, dylid cynnal asesiad risg trylwyr o'r gwaith sydd ynghlwm wrth greu'r ardd, a'r ardd orffenedig.

Bydd angen nodi, a lliniaru'r risgiau sy'n codi yn sgil, er enghraifft, nodweddion dŵr, planhigion/blodau/aeron a allai fod yn niweidiol, offer, a golchi dwylo aneffeithiol ac arferion hylendid gwael. Efallai y byddwch am ymgynghori â'r Royal Horicultural Society a cheisio cyngor ganddynt – ewch i schoolgardening.rhs.org.uk/resources/info-sheet/health-safety-in-the-garden, un o ddarpariaeth helaeth yr RHS.

Dangoswch eich dyluniad i amrywiaeth fawr o bobl sydd â gwahanol gyfrifoldebau o fewn eich ysgol cyn penderfynu ar fersiwn derfynol – gall eu safbwyntiau gwhanaol arwain at newid neu wella rhyw elfen.

Dilynwch yr awgrymiadau syml hyn a bydd gennych chithau hefyd sylfaen gwych ar gyfer gardd wedi'i hysbrydoli gan Salm 23.

Byddem wrth ein bodd yn clywed sut hwyl gawsoch chi gyda'ch gardd Salm 23. Felly, anfonwch eich lluniau a hanes yr ardd a grewyd gennych yn eich cymuned i: education@biblesociety.org.uk

GARDD
SALM 23

**Cymdeithas y Beibl / Bible Society**
Ffôn: +44(0)1793 418222 cymdeithasybeibl.cymru neu biblesociety.org.uk Elusen gofrestredig 232759
**psalm23garden.co.uk**